

Canllaw Cyflym i Athrawon ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cefndir Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiadau pwysig

Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Sut y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu?

Y Cyfarfod Llawn

Y Pwyllgorau

Y Siambr

Materion datganoledig

Materion a gadwyd yn ôl

Pwy yw pwy?

Beth yw gwaith Aelodau Cynulliad?

Sut y caiff Aelodau Cynulliad eu hethol

Canlyniadau Etholiadau

Ffeithiau am adeilad y Senedd

Banc Geiriau


Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn, Llais dros Gymru, a oedd yn amlinellu ei chynigion ar gyfer datganoli yng Nghymru. Cafodd y cynigion hynny eu cadarnhau yn y refferendwm ar 18 Medi 1997 (Ie= 50.3% Na= 49.7%). Yn dilyn hynny, pasiodd y Senedd yn San Steffan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a arweiniodd at sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ganlyniad i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, trosglwyddwyd pwerau a chyfrifoldebau datganoledig Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Ers hynny, mae llawer o Ddeddfau Seneddol wedi rhoi pwerau i'r Cynulliad.

Dyddiadau Pwysig

15 Mai 1997	Cyflwyno Mesur Refferenda (yr Alban a Chymru) yn Senedd San Steffan - arweiniodd hyn at gynnal refferendwm ar ddatganoli.
22 Gorffennaf 1997	Cyhoeddi Papur Gwyn ar ddatganoli - roedd hwn yn cynnwys manylion ar yr hyn y byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud pe byddai pobl Cymru yn pleidleisio 'Ie' dros sefydlu Cynulliad.
18 Medi 1997	Cynnal Refferendwm.
19 Medi 1997	Y canlyniad oedd mwyafrif yn pleidleisio 'Ie' dros sefydlu Cynulliad.

27 Tachwedd 1997	Cyflwyno Mesur Llywodraeth Cymru yn Nhy'r Cyffredin - dyma'r cam cyntaf tuag at basio'r Ddeddf a fydd yn caniatáu sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
31 Gorffennaf 1998	Mesur Llywodraeth Cymru yn derbyn Cydsyniad Brenhinol - y Frenhines yn llofnodi Mesur Llywodraeth Cymru er mwyn ei wneud yn Ddeddf Llywodraeth Cymru.
6 Mai 1999	Etholiad ar gyfer Aelodau Cynulliad.
12 Mai 1999	Cyfarfod cyntaf y Cynulliad.
26 Mai 1999	Agoriad y Cynulliad Cenedlaethol.
1 Gorffennaf 1999	Trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.
16 Hydref 2000	Cyhoeddi Llywodraeth Glymblaid rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad.
1 Mai 2003	Ail Etholiad.
7 Mai 2003	Cyfarfod Llawn cyntaf yr Ail Gynulliad.
5 Mehefin 2003	Ei Mawrhydi y Frenhines yn agor ail dymor y Cynulliad yn swyddogol.
31 Mawrth 2004	Cyhoeddi Adroddiad Comisiwn Richard ar bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol.
17 Mai 2005	Cyhoeddi deddfwriaeth i ddiwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn araith y Frenhines. Cyhoeddir manylion llawn Mesur Llywodraeth Cymru (Diwygio) mewn Papur Gwyn maes o law.

- 
- 15 Mehefin 2005 Cyhoeddi'r Papur Gwyn ar ddiwygio'r Cynulliad 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru'.
- 8 Rhagfyr 2005 Cyhoeddi Mesur Llywodraeth Cymru a'r darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin.
- 18 Ionawr 2006 Sefydlu'r Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru.
- 1 Mawrth 2006 Agoriad Brenhinol adeilad y Senedd.
- 25 Gorffennaf 2006 Mesur Llywodraeth Cymru yn cael Cydsyniad Brenhinol. Y Frenhines yn llofnodi Mesur Llywodraeth Cymru i'w wneud yn Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn caniatáu i Gymru wneud cais am bwerau deddfu fesul achos.
- 3 Mai 2007 Trydydd etholiad y Cynulliad.
- 28 Mehefin 2007 Cyhoeddi Llywodraeth glymblaid.

Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ac yn dosbarthu'r arian sy'n dod iddo gan Drysorlys Llywodraeth y DU i helpu pobl Cymru. Yn unol â'i bwerau datganoledig (pwerau a drosglwyddwyd), mae'r Cynulliad yn datblygu polisiau ac yn cymeradwyo deddfwriaeth sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Y bobl hynny a gaiff eu hethol yn Aelodau gan bobl Cymru a fydd yn gwneud penderfyniadau ar y materion hyn. Gelwir y cynrychiolwyr etholiadol hyn yn Aelodau Cynulliad. Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Aelodau Seneddol o Etholaethau Cymru yn cadw'u seddi yn San Steffan o hyd.

O etholiad mis Mai 2007 ymlaen, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig fel iechyd ac addysg (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) ond bydd yn rhaid i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi gytuno mewn egwyddor yn gyntaf. Bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol gael caniatâd neu 'gymhwysedd deddfwriaethol' cyn cael y pŵer i wneud Mesurau (Deddfau'r Cynulliad) mewn perthynas â maes penodol o lywodraeth ddatganoledig. Un dull o gael 'cymhwysedd deddfwriaethol' yw trwy ddiwygio cymalau mewn Mesurau Seneddol sy'n mynd trwy Senedd San Steffan. Mae'r dull arall yn cynnwys rhoi cymhwysedd deddfwriaethol drwy ddefnyddio gweithdrefn y cyfeirir ato fel 'Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol'. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gerbron Senedd y DU. Ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael cymhwysedd deddfwriaethol, gall ddechrau'r broses o basio Mesurau'r Cynulliad (Deddfau Cymru).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n awgrymu'r rhan fwyaf o ddarnau o ddeddfwriaeth newydd ac sy'n gyfrifol am adrannau'r Llywodraeth a gwariant.



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys **60** o Aelodau Cynulliad
40 o Aelodau Cynulliad dros Etholaethau
20 o Aelodau Cynulliad Rhanbarthol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu ar waith Llywodraeth
Cynulliad Cymru, yn craffu ar ddeddfwriaeth ac yn pasio is-
deddfwriaeth.

Yn y rhan fwyaf o gyrff seneddol, yn cynnwys San Steffan a Senedd yr
Alban, mae'r Llywodraeth (y weithrediaeth) a'r Senedd (y ddeddfwrfa)
yn gyrff ar wahân yn gyfreithiol.

Ar 17 Gorffennaf 2005, cyflwynodd y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS,
Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Bapur Gwyn yn dwyn y teitl 'Trefn Ly-
wodraethu Well i Gymru'. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion y Lly-
wodraeth ar gyfer deddfwriaeth i newid mewn tair ffordd y darpariaethau
sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd:

Creu strwythur gweithredol newydd i'r Cynulliad;
Gwella pwerau deddfwriaethol y Cynulliad;

Diwygio'r system etholiadol.

Bydd hyn yn golygu gwahanu Senedd a Llywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol ac yn gyfreithiol.

Cyfeirir at Lywodraeth Cynulliad Cymru fel y weithrediaeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fel y ddeddfwrfa.

Sut y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu?

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (60 o Aelodau Cynulliad a gaiff eu hethol) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (Aelodau dethol o'r blaid/pleidiau mwyaf) gyda'i gilydd yn gorff corfforaethol a chyfeirir ato fel 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

1. Y Cyfarfod Llawn

Cyfarfod o holl Aelodau'r Cynulliad yw Cyfarfod Llawn a gynhelir yn y Siambr. Hwn yw fforwm gwneud penderfyniadau a deddfu'r Cynulliad. Cynhelir y Cyfarfod Llawn ar brynhawniau Mawrth a Mercher yn gyhoeddus a chaiff ei ddarlledu'n fyw ar S4C 2.

Caiff y Cyfarfod Llawn ei gadeirio gan y Llywydd gyda Dirprwy Lywydd yn dirprwyo yn ôl yr angen. Cânt eu hethol gan yr holl Aelodau Cynulliad.

Bydd y Llywydd yn cyhoeddi agenda ar gyfer pob cyfarfod ymlaen llaw. Caiff o leiaf 45 munud ei neilltuo bob wythnos ar gyfer Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog. Yn ogystal, bydd pob Gweinidog y Cabinet yn ymateb i Gwestiynau Llafar o leiaf unwaith bob pedair wythnos. Bydd Aelodau Cynulliad yn trafod y materion ar yr agenda ac yn pleidleisio ar y cynigion a gyflwynir.

Gall Aelodau Cynulliad gynnig pwnc ar gyfer Dadl Fer cyn diwedd y Cyfarfod Llawn. Gyda chaniatâd y Llywydd, gall Aelod Cynulliad ofyn i'r

Cynulliad ystyried mater brys o bwys cyhoeddus yn syth. Caiff amser ei neilltuo i drafod:

Dyrannu cyllideb y Cynulliad;
Adroddiadau a gyflwynir gan Bwyllgorau;
Materion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd;
Mesurau Cynulliad a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft.

Gall Aelodau unigol gmryd rhan mewn balot i gael y cyfle i gynnig deddfwriaeth neu i ddewis pwnc ar gyfer y Ddadl Fer wythnosol.

2. Y Pwyllgorau

Grŵp o Aelodau Cynulliad yw Pwyllgor Cynulliad sy'n cyfarfod yn rheolaidd i graffu ar bolisïau a deddfwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf yn cyfarfod yn gyhoeddus a cheir 'cydbwysedd rhwng y pleidiau' yn gyffredinol.

Pwyllgorau Deddfwriaethol

Mae'r Pwyllgorau Deddfwriaethol yn trafod ac yn rhoi cyngor i'r Cynulliad ar ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn gyffredinol, caiff Pwyllgor ei greu i drafod darn penodol o ddeddfwriaeth a daw i ben ar ôl i'r ddeddfwriaeth honno gael ei phasio.

Pwyllgorau Craffu

Mae'r Pwyllgorau Craffu'n edrych yn fanwl ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig.

Pwyllgorau eraill

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn edrych yn fanwl ar adroddiadau a baratoir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill ac ar economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Cynulliad o ran y ffordd y mae wedi defnyddio'i adnoddau. Y rheswm dros wneud hyn yw sicrhau bod pobl Cymru yn hyderus y caiff eu harian ei wario mewn ffordd gall a phriodol.

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn edrych yn fanwl ar weithgareddau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Diben y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yw adolygu cysylltiadau'r Cynulliad â sefydliadau Ewropeaidd a sefydliadau rhyngwladol.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau.

Y Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych yn fanwl ar unrhyw gynigion gan y Llywodraeth sy'n ymwneud â gwariant.

Y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog

Y Pwyllgor Busnes

Y Llywydd yw cadeirydd y Pwyllgor Busnes. Bydd Arweinydd y Tŷ a Rheolwr Busnes pob un o'r pleidiau eraill yn bresennol. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor ar reoli gwaith y Cynulliad.

3. Y Siambr

Mae sedd wedi'i neilltuo ar gyfer pob Aelod Cynulliad yn y Siambr ynghyd â chyfrifiadur sgrin gyffwrdd y gallant ei ddefnyddio yn ystod trafodaethau. Maent yn eistedd mewn hanner cylch yn wynebu'r Llywydd.

Mae'r cyfrifiaduron sgrin gyffwrdd yn caniatáu i Aelodau Cynulliad ddefnyddio e-bost a chael gwybodaeth ar ffurf electronig. Gall yr Aelodau Cynulliad anfon neges at y Llywydd a gofyn am ganiatâd i siarad.

Mae'r Cynulliad yn gwbl ddwyieithog a gall Aelodau Cynulliad ddewis siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ym mhob Cyfarfod Llawn ac yng nghyfarfodydd Pwyllgorau.

Mae'r Aelodau'n pleidleisio drwy bwyso botymau ar gonsol sydd ar eu desgiau. Gallant ddewis pleidleisio 'o blaid', 'yn erbyn' neu 'ymatal'. Dangosir y canlyniadau ar unwaith ar sgriniau yn y Siambr.

Cynhyrchir cofnodion ar gyfer pob Cyfarfod Llawn, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Deddfwriaethol a Phwyllgorau Sefydlog a chyfeirir atynt fel Cofnod y Trafodion. Cofnod gair-am-air yw hwn a gaiff ei olygu er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb ac er mwyn osgoi ailadrodd diangen. Cyhoeddir trawsgrifiadau cwbl ddwyieithog o'r trafodion ar wefan y Cynulliad o fewn 24 awr i bob Cyfarfod Llawn.

Materion Datganoledig

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i gael mwy o bwerau i wneud ei ddeddfau ei hun, a hynny fesul achos. Yn Neddf Llywodraeth Cymru, diffinnir cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy gyfeirio at 'feysydd' a 'materion':

Maes pwnc eang, e.e. priffyrdd a thrafnidiaeth a thai yw "maes";
Maes polisi diffiniedig penodol o fewn maes yw "mater".

Yr 20 maes yw:

Maes 1: amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig

Maes 2: henebion ac adeiladau hanesyddol

Maes 3: diwylliant

Maes 4: datblygu economaidd

Maes 5: addysg a hyfforddiant

Maes 6: yr amgylchedd

Maes 7: gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân

Maes 8: bwyd

Maes 9: iechyd a gwasanaethau iechyd

Maes 10: priffyrdd a thrafnidiaeth

Maes 11: tai

Maes 12: llywodraeth leol

Maes 13: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Maes 14: gweinyddiaeth gyhoeddus

Maes 15: lles cymdeithasol

Maes 16: chwaraeon a hamdden

Maes 17: twristiaeth

Maes 18: cynllunio gwlad a thref

Maes 19: dwr ac amddiffyn rhag llifogydd

Maes 20: y Gymraeg

Materion a gadwyd yn ôl

Dim ond Senedd y DU a all basio deddf ar faterion a gadwyd yn ôl:

Amddiffyn Materion Tramor Diogelwch Gwladol Masnach a Diwydi-
ant

Nawdd Cymdeithasol Darlledu Cyfle Cyfartal Cyfreithiau ar gamddef-
nyddio cyffuriau Trydan, Nwy, Glo ac Ynni Niwclear

Cyflog athrawon Hela llwynogod yr Heddlu

Pwy yw pwy?

I ddarganfod pwy yw eich Aelod, ewch i hafan ein gwefan gan deipio'ch
cod post:

www.cynulliadcymru.org

Beth yw gwaith Aelodau Cynulliad?

- Cynrychioli'r bobl sy'n byw yn y rhanbarth neu'r etholaeth;
- Ateb llythyrau, negeseuon e-bost ac ymholiadau;
- Mynychu'r Cyfarfod Llawn (pob prynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher);
- Gofyn cwestiynau i Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- Gweithio mewn Pwyllgorau;
- Gweithio gydag Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad eraill;
- Mynychu cyfarfodydd pleidiau.

Sut y caiff Aelodau Cynulliad eu hethol?

Cynhelir etholiad pob pedair blynedd ac mae gan bob etholwr ddwy bleidlais. O'r 60 o Aelodau Cynulliad a gaiff eu hethol, mae 40 yn cynrychioli etholaethau ac fe'u hetholir drwy system 'y cyntaf i'r felin', sef yr un broses a ddefnyddir i ethol Aelodau Seneddol i Dŷ'r Cyffredin. Mae 20 Aelod arall yn cynrychioli'r rhanbarthau. Caiff yr Aelodau Rhanbarthol eu hethol drwy fath o gynrychiolaeth gyfrannol a chyfeirir ato fel System Aelodau Ychwanegol. Mae'r system hon yn anelu at sicrhau bod cyfanswm nifer y seddi sydd gan bob plaid yn adlewyrchu cyfran y bleidlais a dderbyniwyd gan bob plaid.

Mae pob rhanbarth yn cynnwys rhwng 7 a 9 etholaeth. Etholir 4 Aelod cynulliad rhanbarthol ar gyfer pob un o'r 5 rhanbarth.

Y 5 rhanbarth yw:

Gogledd Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dwyrain De Cymru
Gorllewin De Cymru
Canol De Cymru

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ni fydd gan ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2007 yr hawl i sefyll mewn etholaeth ac ar restr ranbarthol.

Y System Aelodau Ychwanegol

Penderfynir ar y pedwar Aelod Rhanbarthol ychwanegol drwy:

Cyfrif nifer y pleidleisiau a roddwyd ar gyfer rhestr pob plaid ar ail bapur pleidlais yr etholwyr;

Rhannu nifer y pleidleisiau ar gyfer rhestrau pob plaid gyda nifer y seddi etholaethol a enillwyd gan y pleidiau hynny o dan y system y cyntaf i'r felin gan ychwanegu 1;

Gwneud yr un peth ar gyfer yr ail a'r pedwerydd Aelod ychwanegol; ym mhob achos rhannwch y pleidleisiau ar gyfer rhestr pob plaid gyda nifer y seddi etholaethol gan ychwanegu 1, yn ogystal ag unrhyw seddi aelodau ychwanegol a ddyrannwyd mewn cylchoedd blaenorol.

Enghraifft:

	Plaid A	Plaid B	Plaid C	Plaid Ch
Cyfanswm y pleidleisiau ar gyfer pob plaid	116	63	61	56
Seddi y cyntaf i'r felin a enillwyd	4	0	2	2
Sedd Ychwanegol Cyntaf	/5=23.2	/1=63.0 wedi'i ethol	/3=20.3	/3=18.7
Ail Sedd Ychwanegol	/5=23.2	/2=31.5 wedi'i ethol	/3=20.3	/3=18.7
Trydydd Sedd Ychwanegol	/5=23.2 wedi'i ethol	/3=21.0	/3=20.3	/3=18.7
Pedwerydd Sedd Ychwanegol	/6=19.3	/3=21.0 wedi'i ethol	/3=20.3	/3=18.7
Aelodau Ychwanegol	1	3	0	0
Cyfanswm yr Aelodau Cynulliad	5	3	2	2

Canlyniadau'r Etholiadau

Cynhaliwyd yr etholiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol cyntaf ar 6 Mai 1999 yn dilyn canlyniad refferendwm 1997.

Canlyniad Refferendwm 1997

	% Ie	% Na	% a bleidle- isiodd
Cymru	50.3	49.7	50.3
Yr Alban	74.4	25.6	61.5

Canlyniad Refferendwm 1979

	% Ie	% Na	% a bleidle- isiodd
Cymru	20.3	79.7	58.8
Yr Alban	51.6	48.4	63.6

Canlyniadau Etholiad 1999

Plaid	Cyntaf i'r Felin	Aelodau Ychwanegol	(Cyntaf i'r Felin ac Aelodau Ychwanegol)
Llafur	27	1	28
Plaid Cymru	9	8	17
Democratiaid Rhyddfrydol	3	3	6
Ceidwadwyr	1	8	9
Cyfanswm	40	20	60

Canlyniadau Etholiad 2003

Plaid	Cyntaf i'r Felin	Aelodau Ychwanegol	(Cyntaf i'r Felin ac Aelodau Ychwanegol)
Llafur	30	0	30
Plaid Cymru	5	7	12
Democratiaid Rhyddfrydol	3	3	6
Ceidwadwyr	1	10	11
Cymru Ymlaen	1	0	1
Cyfanswm	40	20	60

Canlyniadau Etholiad 2007

Plaid	Cyntaf i'r Felin	Aelodau Ychwanegol	(Cyntaf i'r Felin ac Aelodau Ychwanegol)
Llafur	24	2	26
Plaid Cymru	7	8	15
Democratiaid Rhyddfrydol	3	3	6
Ceidwadwyr	5	7	12
Cymru Ymlaen	1	0	1
Cyfanswm	40	20	60

Ffeithiau am adeilad y Senedd

Lleolir y Senedd, adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Fe'i cynlluniwyd gan Bartneriaeth Richard Rogers i adlewyrchu prif athroniaeth y Cynulliad sef tryloywder a natur agored.

Mae'r Senedd yn arbed ynni ac yn lleihau gwastraff drwy ddefnyddio technolegau adnewyddadwy.

I ddarganfod mwy, ewch i'r wefan ganlynol:

www.cynulliadcymru.org

Aelodau Cynulliad dros Etholaethau	Rhennir Cymru yn 40 etholaeth ac etholir Aelodau Cynulliad drwy'r system y cyntaf i'r felin.
Aelodau Cynulliad Rhanbarthol	Mae yna 20 o Aelodau Cynulliad Rhanbarthol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
Clymblaid	Trefniant rhwng mwy nag un blaid wleidyddol, pan na fydd unrhyw blaid yn ennill mwy na hanner cyfanswm y seddi.
Craffu	Aelodau Cynulliad yn cwestiynu Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth)
Cyfarfod Llawn	Cyfarfod Llawn o'r holl Aelodau Cynulliad.
Cyfraith	Rheolau sy'n penderfynu'r hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud mewn gwlad. Gall y Cynulliad Cenedlaethol basio cyfraith ar faterion datganoledig.
Cyfranogi	'Cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd'. Gall pobl gymryd rhan drwy bleidleisio, sefyll etholiad, ymuno â phlaid wleidyddol neu gymryd rhan mewn ymgyrch i newid rhywbeth y maent yn teimlo'n gryf drosto.

Dadl	Trafodaeth rhwng Aelodau Cynulliad sy'n arwain at ddadl yn aml. Cynhelir y dadleuon yn y Siambr fel arfer.
Datganoli	Y broses o ddirprwyo pŵer gan lywodraeth ganolog i weinyddiaeth leol neu ranbarthol. Golyga datganoli yng Nghymru symud pŵer gwleidyddol i wneud penderfyniadau yn ymwneud â Chymru o'r Senedd yn San Steffan a'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd.
Deddf	Cyfraith a gaiff ei basio gan Senedd y DU ac sydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol h.y. sydd wedi cael ei llofnodi gan y Frenhines.
Deddfwriaeth	Y broses ddeddfu.
Deddfwriaeth Sylfaenol	Deddfau a basiwyd gan y Senedd yn San Steffan. Mae deddfau'n dechrau fel Mesurau y cynhelir trafodaethau arnynt yn Senedd San Steffan (Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi). Ar ôl i Fesur fynd trwy Senedd San Steffan caiff Gydsyniad Brenhinol gan y Frenhines a daw'n Ddeddf Seneddol. Yna caiff ei wneud yn gyfraith gwlad.
Democratiaeth	Pawb yn y wlad yn cael mynegi barn ar yr hyn sy'n digwydd a'r hyn a benderfynir. Mewn gwlad ddemocrataidd, cynhelir etholiad i'r bobl ddewis pwy ddylai eu cynrychioli.

Etholaeth	Ardal ddaearyddol ddiffiniedig yw etholaeth sy'n ethol Aelod Seneddol (AS) i Senedd San Steffan neu Aelod Cynulliad (AC) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Aelodau Cynulliad yn cynrychioli eu hetholwyr yn y Cynulliad.
Etholiad Cyffredinol	Cynhelir etholiad cyffredinol o leiaf bob pum mlynedd. Mae gan bron pawb 18 oed a thro-sodd hawl i bleidleisio dros eu Haelod Seneddol. Y blaid â'r nifer fwyaf o Aelodau Seneddol sydd fel arfer yn llunio'r Llywodraeth.
Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol	Math o Is-ddeddfwriaeth sy'n trosglwyddo pwerau penodol o Senedd y DU i'r Cynulliad. Bydd pob Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol newydd yn ychwanegu mater (neu faterion) newydd i'r maes perthnasol yn Atodlen 5, ar yr amod bod gan y Cynulliad y pŵer i wneud Mesurau o fewn y meysydd polisi a ddiffinnir gan y mater. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru, Pwyllgor y Cynulliad neu Aelod unigol gynnig Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.
Gweinidogion	Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Gweinidogion	Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
Is-ddeddfwriaeth	Mae hyn yn ymwneud â deddfau a wneir gan Weinidogion y Llywodraeth o dan bwerau a roddir iddynt gan Senedd y DU. Nid yw'r deddfau hyn yn mynd trwy'r un broses â deddfwriaeth sylfaenol.
Maes	Maes pwnc eang, e.e. priffyrdd a thrafnidiaeth.
Maniffesto	Rhestr o addewidion a gynhrychir gan blaid wleidyddol. Fe'i cynhrychir gan bleidiau cyn etholiad yn awgrymu'r polisïau y byddant yn eu dilyn os cânt eu hethol i bŵer.
Materion	Maes polisi diffiniedig penodol o fewn maes (ceir rhestr yn Ato- diad 5 i Ddeddf 2006).
Materion a gadwyd yn ôl	Rhai o'r materion a gaiff eu penderfynu ar lefel y DU yw Amddiffyn, Materion Tramor, Cyfraith Cyflogi, Trethi a Nawdd Cymdeithasol.
Materion datganoledig	Y materion y penderfynir arnynt yng Nghymru. Y materion datganoledig yw'r meysydd y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pŵer i wneud penderfyniadau arnynt.
Mesur Seneddol	Cynigion a all ddod yn gyfraith os bydd Senedd y DU yn cytuno arnynt.

Mesur Cynulliad	Deddfau'r Cynulliad. Bydd efaith debyg i Fesur Cynulliad a Deddf Seneddol.
Papur Gwyn	Adroddiad yn amlinellu cyfres o gynigion, a gaiff ei gyhoeddi a'i drafod cyn creu Mesur Seneddol.
Pleidiau	Y grwpiau gwahanol o bobl sy'n ceisio cael eu hethol i Senedd y DU neu i'r Cynulliad.
Polisiâu	Y syniadau sydd gan wahanol bleidiau o ran newid pethau.
Pwyllgor	Grŵp o Aelodau Cynulliad o wahanol bleidiau.
Refferendwm	Pleidlais arbennig pan fydd Llywodraeth am ddarganfod barn pobl am bwnc penodol.
Rhanbarth	Rhennir Cymru yn 40 etholaeth ar gyfer etholiadau. Fe'i rhennir hefyd yn 5 rhanbarth. Caiff pedwar Aelod Cynulliad eu hethol i gynrychioli'r rhanbarthau hyn.
San Steffan	Lleolir Dau Dŷ'r Senedd yn San Steffan, Llundain.
Senedd	Grŵp o gynrychiolwyr a gaiff eu hethol sy'n trafod ac yn penderfynu ar ddeddfau newydd.
Y Cynulliad	Senedd Cymru yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Y Llywydd	Y Llywydd sy'n cadeirio'r Cyfarfod Llawn ac sy'n sicrhau y cynhelir busnes y Cynulliad yn gywir.